ClwydAlyn

# Cynllun Corfforaethol 2025-2030

CRYNODEB

*Gyda'n gilydd,* byddwn yn **rhoi diwedd** ar dlodi





“Wrth i ni edrych ymlaen i'r pum mlynedd nesaf mae'r darlun presennol ar gyfer ein preswylwyr, ein darpar breswylwyr, a'n staff, yn bryderus iawn. Mae'r pwysau ariannol ar aelwydydd yn cynyddu, a does dim disgwyl i'r sefyllfa wella yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Ar hyn o bryd mae un o bob pump o bobl Cymru yn byw mewn tlodi cymharol. Mae hyn yn golygu bod ein gwaith ni i roi diwedd ar dlodi, ochr yn ochr â phobl eraill, yn hanfodol.

Byddwn yn dal i gynnig cymorth a chefnogaeth ymarferol i breswylwyr a staff, ac yn ystod oes y cynllun hwn byddwn hefyd yn ceisio gwneud mwy i gael dylanwad cadarnhaol yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig.

Fodd bynnag, ni allwn wneud hyn ar eu pen ein hunain, ac rydym yn cydnabod ein bod yn gryfach pan rydym yn gweithio gyda'n gilydd. Byddwn yn parhau i feithrin perthynas ag eraill a chynyddu ein dylanwad er mwyn adeiladu'r achos dros newid, gan roi budd ein preswylwyr a'n staff wrth galon ein gwaith. Credwn y gallwn roi diwedd ar dlodi.

Os hoffech weithio gyda ni ac ymuno â ni ar ein taith, byddem wrth ein bodd.”

**Cris McGuinness**

**Cadeirydd**
**ClwydAlyn**

“Fel tenant sy'n aelod o'r bwrdd a chadeirydd y pwyllgor preswylwyr, rwyf wedi gweld drosof fi fy hun yr effaith mae cenhadaeth ClwydAlyn i drechu tlodi wedi ei chael dros y pum mlynedd diwethaf.

Yn anad dim, mae'r gwaith a'r ymrwymiad hwn wedi golygu cryfhau llais a dylanwad preswylwyr ar draws y sefydliad gan neilltuo amser a darparu adnoddau i ddeall yr heriau sy'n wynebu preswylwyr er mwyn cynllunio gwasanaethau a chymorth i ddiwallu anghenion pawb.

Tlodi yw'r her fwyaf sy'n wynebu llawer o breswylwyr heddiw. Dyna pam mae'n hollbwysig bod gwaith ClwydAlyn yn golygu llawer mwy na bod yn landlord da.

Mae angen i ni roi gobaith am well dyfodol i bobl drwy ddarparu cartrefi o ansawdd da a rhenti y maen nhw'n gallu eu fforddio, fel bod ganddyn nhw ddigon o incwm ar gyfer yr holl gostau eraill sy'n eu hwynebu gan gynnwys tanwydd a bwyd.”

**Peter Smith-Hughes**

**Aelod o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Preswylwyr**









# Cyflwyniad

**Bum mlynedd yn ôl, gwnaethom amlinellu ein pwrpas yn ClwydAlyn i weld Cymru HEB DLODI.** Gwnaethom ddychmygu pa mor wahanol fyddai Cymru heb dlodi – rhywle lle gall pawb gael cartref fforddiadwy o ansawdd uchel y gallant fforddio ei wresogi, lle gallant fforddio'r bwyd mae ei angen arnynt i gadw'n iach, a lle mae ganddynt gyfleoedd gwaith a gwirfoddoli da ac maent yn byw mewn cymunedau lle maent yn teimlo eu bod yn perthyn. Roeddem yn gwybod fod hyn yn swnio braidd yn annhebygol, ond rydym yn credu'n gryf y gallwn ac y dylem droi'r weledigaeth hon yn realiti i gynifer o bobl ag sy'n bosibl.
Y weledigaeth hon yw conglfaen popeth rydym yn ei wneud yn ClwydAlyn, ac rydym wedi gweld rhai llwyddiannau go iawn i gyflawni'r nod hwn dros y pum mlynedd diwethaf:

## **Bod yn landlord** da yn gyntaf oll

- Rydym yn dal i ymroi i fod yn landlord da a darparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n preswylwyr. Dros y pum mlynedd diwethaf maent wedi ein sgorio yn y chwartel uchaf neu ganol o ran ein perfformiad.

- Rydym yn perfformio'n dda o ran cynnal iechyd a diogelwch ein cartrefi ac rydym yn darparu gwasanaethau trwsio a chynnal da, yn ogystal â rheoli ein hincwm yn dda.

- Rydym wedi trawsnewid y ffordd rydym yn rheoli cwynion gan ddod yn un o'r unig landlordiaid yn y Deyrnas Unedig i sefydlu Panel Cwynion Preswylwyr.

Fideo diwrnod trigolion sy'n symud i mewn – **Brynsiencyn, Ynys Môn:**



## **Dim** troi allan

- Rydym wedi trawsnewid y ffordd rydym yn ymdrin ag achosion o droi pobl allan drwy gael gwared ar ein polisi troi allan a chyflwyno addewid dim troi allan arloesol gan ganolbwyntio ein hymdrechion ar helpu preswylwyr i gadw eu tenantiaethau ac aros yn eu cartrefi.

- Gwnaethom ganolbwyntio ar feithrin perthynas o ymddiriedaeth gyda phreswylwyr i ddeall eu hamgylchiadau. Gwnaethom weithio gyda'n gilydd i ystyried sut gallwn eu helpu i reoli ôl-ddyledion neu unrhyw heriau eraill sydd ganddynt. Ers 2019 does neb wedi cael ei droi allan o'i gartref, ac mae nifer cyfartalog ein hysbysiadau ceisio meddiant (NOSPs) wedi lleihau'n sylweddol. Mae ôl-ddyledion rhent yn dal i ostwng hefyd o 4.29% yn 2022/23 i 4.19% yn 2023/24.

## **Adeiladu** a **chynnal** cartrefi

- Rydym wedi adeiladu 877 o gartrefi o ansawdd uchel sy'n effeithlon o ran ynni mewn ymdrech i fynd i'r afael â phrinder tai, rhoi diwedd ar ddigartrefedd a darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy.
- Rydym wedi buddsoddi £6 miliwn mewn grantiau i wella ein cartrefi presennol a'u gwneud mor fforddiadwy i'w gwresogi â phosibl, yn ogystal â rhoi sylw i dlodi tanwydd drwy ddarparu pob math o ddatrysiadau technolegol fel pympiau gwres, paneli solar, a gwresogi isgoch.
- Rydym wedi buddsoddi £18 miliwn yn ein stoc o'n cronfeydd ein hunain yn ystod y cyfnod dan sylw ar gyfer gwaith a gynlluniwyd.

## **Sicrhau** y gall pobl gael gafael ar fwyd iach, fforddiadwy

- Rydym wedi sefydlu partneriaeth gyda'r fenter gymdeithasol, Well Fed/Bwydo'n Dda, i gefnogi ein hymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi bwyd a sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn gallu cael gafael ar fwyd iach lleol, fforddiadwy. Rydym hefyd wedi darparu rhaglen addysg bwyd iach a bwyd iach am ddim i deuluoedd sy'n wynebu argyfwng.



## **Darparu cyfleoedd** dysgu a gweithio

- Rydym wedi cyflwyno dewis eang o gymorth cyflogadwyedd i ddarparu mynediad at gyfleoedd swyddi i bobl leol, gan gynnwys cydweithio ag elusennau lleol i ddarparu profiad gwaith a hyfforddi pobl ifanc i wella eu siawns o gael gwaith.
- Rydym wedi buddsoddi mewn swyddi llwybrau yn ClwydAlyn i gynnig llwybrau i yrfaoedd ym maes tai i bobl leol, yn ogystal â dewis eang o brentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli.


## **Cefnogi** ein cydweithwyr

- Rydym yn cydnabod na allwn fynd i'r afael â thlodi heb gynnig cefnogaeth dda i'n cydweithwyr. Gwnaethom ymrwymo i dalu'r cyflog byw gwirioneddol a datblygu cynnig bwyd i'n holl cydweithwyr i sicrhau y gall pawb gael pryd am ddim yn ystod y diwrnod gwaith.




Er ein bod wedi cymryd rhai camau breisio i fynd i'r afael â thlodi yng Ngogledd Cymru, rydym yn gwybod bod yr her wedi dal i dyfu dros y pum mlynedd diwethaf.

Dangosodd ffigyrau diweddaraf Llywodraeth Cymru fod 21% o boblogaeth Cymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol, ac yn ôl Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru pobl yn y grŵp oed gwaith yw'r grŵp mwyaf o bobl sy'n byw mewn tlodi, gan gyfrif am tua 57% o bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru.




Yng Ngogledd Cymru, mae canran y plant sy'n byw mewn tlodi wedi cynyddu rhwng 2015 a 2021; mae'r cynnydd ar ei fwyaf yng Nghonwy a sir Ddinbych, ac yn ein rhanbarth ni mae rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

Dyma pam ein bod yn credu bod ein pwrpas i roi diwedd ar dlodi yn bwysicach nag erioed.

Mae'n hysbys yn gyffredinol bod cartref o ansawdd da yn sylfaen ar gyfer iechyd a llesiant da (hierarchaeth anghenion Maslow), ond nid yw'n ddigon ar ei ben ei hun, ac nid yw erioed wedi bod yn ddigon, i alluogi tenantiaid a phreswylwyr i fyw bywydau iach a ffyniannus.

Mae'r her sy'n ein hwynebu yn ymddangos yn enfawr, ond mae ClwydAlyn yn credu bod newid gwirioneddol a chynaliadwy yn bosibl.

Diolch i'r trefniadau cydweithio cadarn rydym wedi'u sefydlu ac rydym yn parhau i'w hadeiladu gyda phartneriaid ym mhob rhan o'r rhanbarth i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, trwy weithio gyda'n gilydd rydym yn gwybod y gallwn wneud gwahaniaeth gwirioneddol nawr, ac i genedlaethau'r dyfodol.

**Mae cymaint mwy y gallwn ei wneud i gael effaith gadarnhaol ar y cymunedau lle rydym yn gweithio, a thrwy weithio gyda'n gilydd credwn y gallwn roi diwedd ar dlodi.**




# Ynglŷn â **ClwydAlyn**

Mae ClwydAlyn yn rheoli 6,800 o gartrefi ledled Gogledd Cymru ac yn cyflogi tua 750 o bobl i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n gysylltiedig â rheoli tai.

Mae hyn yn cynnwys tai gofal, gofal nyrsio a thai â chymorth, gwasanaethau datblygu, trwsio a chynnal yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy, Wrecsam, Powys, Gwynedd ac Ynys Môn.





Mae ein cartrefi a'n gwasanaethau yn cynnwys tai cymdeithasol i deuluoedd a llety i bobl sy'n byw ar eu pen eu hunain, llety byw â chymorth a gwasanaethau gofal a nyrsio arbenigol, perchnogaeth tai cost isel, gwasanaethau rheoli lesddaliadau a thai rhent canolraddol a marchnad.

Rydym yn llawer mwy na darparwr tai cymdeithasol. Rydym yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Gogledd Cymru fel cyflogwr a buddsoddwr gyda gwariant cyfalaf sylweddol. Yn ogystal â hyn, mae 80 y cant o'r nwyddau, crefftwyr a gwasanaethau rydym yn eu defnyddio yn lleol. Am bob £1 sy'n cael ei gwario ar ddatblygu cartrefi newydd, mae £1.60 yn cael ei ailfuddsoddi yn yr economi leol.









# Ein **pwrpas**

Rydym wedi datblygu pwrpas sefydliadol clir sy'n ganolog i bopeth rydym yn ei wneud. Mae'n ddatganiad byw sy'n mynegi ein dyhead i gydweithio a blaenoriaethu ein hadnoddau i gyflawni ein nod, sef:

## *Gyda'n gilydd,* **byddwn yn rhoi diwedd** ar dlodi

Rhan hollbwysig o'n dull gweithredu yw defnyddio ein hadnoddau, arbenigedd a'n sgiliau i gydweithio ag eraill gan ein helpu i gyflawni mwy.

Rydym yn datblygu llais gwleidyddol cryf a gweithredol yng Nghymru, gan annog newid er mwyn mynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau tlodi a byddwn yn parhau â'r gwaith pwysig hwn.

Rydym yn gwybod na allwn drechu tlodi ar ein pen ein hunain, ac mae gennym gynrychiolaeth lefel uwch ar sawl grŵp polisi strategol a arweinir gan y Llywodraeth. Rydym hefyd yn datblygu ein rôl i gynnig arweiniad a sylwadau, a dylanwadu ar syniadau yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

Trwy weithio gyda'n preswylwyr, cydweithwyr a'n partneriaid, rydym yn benderfynol o chwarae ein rhan i greu'r newid mae ei angen yng Ngogledd Cymru i fynd i'r afael â thlodi, rhoi diwedd ar anghydraddoldeb a chreu rhanbarth ffyniannus ac amrywiol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn a lle gallant wireddu eu dyheadau.




# Ein blaenoriaethau:

Dros ddwy flynedd ddiwethaf y cynllun corfforaethol, mae'r Prif Weithredwr a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol wedi bod yn cysylltu â thimau a chydweithwyr ar draws ClwydAlyn yn ogystal â phreswylwyr i holi eu barn er mwyn ein helpu i siapio ein gwaith dros y pum mlynedd nesaf.

Mae hyn wedi rhoi "darlun" o'r dyfodol tymor hir a sut fath o fyd y byddem yn byw ynddo petaem yn cyflawni ein pwrpas; mae hyn hefyd wedi helpu i fframio blaenoriaethau ein cynllun corfforaethol.

**Rhoi diwedd** ar ddigartrefedd





Sicrhau y gall preswylwyr a'n staff fyw mewn **cartrefi cynnes**



Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod **bwyd da a fforddiadwy** ar gael ym mhob un o'n cymunedau

# Rhoi diwedd ar ddigartrefedd

Byddai rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn golygu na fyddai neb yn cysgu ar y strydoedd, nac yn byw mewn llety dros dro.

Byddai pobl yn cael eu cefnogi a'u hannog i fyw yn eu cartrefi eu hun gyda'r gwasanaethau economaidd, iechyd ac addysg yn cydweithio i'w cefnogi. Nid yn unig byddai digon o gartrefi ar gael, byddent yn gartrefi o ansawdd uchel sy'n fforddiadwy i fyw ynddynt ac yn gartrefi o'r maint cywir ac yn lleoedd cywir i fodloni anghenion pawb, hyd yn oed wrth i'r anghenion hynny newid dros amser.

Byddai pobl yn gallu dewis ble maent yn dymuno byw a'r math o ddeiliadaeth. Byddai cymunedau sefydlog yn datblygu lle gall pobl ffynnu a chael yr adnoddau i fyw'n dda ac elwa ar y cyfleoedd a ddaw o gael cyfeiriad parhaol a chartref sy'n angor i fywyd.

**"Dydy credyd cynhwysol ddim yn ddigon i fyw arno, ac mae hynny'n broblem fawr o ran digartrefedd. Rwy'n 16 oed ac yn ddigartref, mae'n anodd cynilo arian a chyllidebu. Rwyf eisiau dod o hyd i waith a thalu am bethau ond mae fy oedran yn cyfrif yn fy erbyn, rwyf wedi ymgeisio am lawer o swyddi ond dydw i byth yn cael ateb."**

**"Mae'r holl straen meddyliol yn heriol i lawer o bobl sy'n cael trafferthion oherwydd digartrefedd - arhosais yn fy ystafell am fis cyfan heb siarad gyda neb, fe wnes i fynd yn afiach iawn ac roeddwn yn teimlo fod y byd eisiau i mi fethu. Ond sylweddolais na fyddai eistedd a gwneud dim yn fy helpu, dechreuais chwarae pêl-droed a gofalu amdanaf fy hun yn well, ond mae pob diwrnod yn her."**

**"Fy ngobaith yw cael cartref rwy'n talu amdano fy hun, un rwyf yn ei haeddu ac wedi gweithio i fyw ynddo."**






**13,539**

- **Yn 2023/4 aseswyd bod 13,539 o aelwydydd yn ddigartref. Dyma'r nifer mwyaf ers sefydlu deddfwriaeth Cymru (Sefydliad Bevan).**

**17,988**

- **Cafodd 17,988 o bobl eu rhoi mewn llety dros dro yn 2023/24, a symudodd 8,229 i gartref parhaol (Sefydliad Bevan).**

**£752**

- **Yn ôl yr ONS, rhent cyfartalog Cymru oedd £752 y mis ym mis Awst 2024.**

**6.1x**


- **Mae pris tŷ ar gyfartaledd yng Nghymru yn £216,000 (Mai 2024). Yn ôl yr ONS gall gweithiwr llawn amser yng Nghymru ddisgwyl gwario 6.1x o'i gyflog ar brynu cartref yn ardal yr awdurdod lleol lle mae'n gweithio.**

# Sicrhau bod preswylwyr yn byw mewn **cartrefi cynnes**

Yn ClwydAlyn byddai pob un o'n preswylwyr yn byw mewn cartrefi cynnes. Mae ein cartrefi yn effeithlon o ran ynni ac yn fforddiadwy i'w gwresogi a byw ynddynt. Mae pob un o'n cartrefi wedi'u datblygu law yn llaw â thechnoleg ac maent wedi'u hinswleiddio'n dda ac yn gartrefi deallus. Mae'r cartrefi yn gwybod os oes rhywun yn yr ystafell ac maent yn defnyddio'r wybodaeth honno, ynghyd â gwybodaeth arall, i sicrhau bod cartrefi yn cael eu gwresogi yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl, gan gadw ein preswylwyr yn gynnes. Mae ein preswylwyr yn deall sut i wneud y defnydd gorau o'r dechnoleg ac maent yn gallu ei defnyddio i fyw'n dda yn eu cartrefi. Ni fydd angen gwaith adeiladu neu addasiadau pellach i'n cartrefi, ac ni fyddant yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd.

**"Rwy'n gofalu am fy ngŵr sydd â dementia ac rwyf bob amser yn poeni sut gallwn gadw ein cartref yn gynnes gan fod ein biliau wedi bod yn eithriadol o uchel. Rydyn ni wedi cyrraedd pwynt lle rydyn ni'n gwresogi un ystafell yn unig yn ystod y dydd a'r ystafell wely am awr bob nos i geisio rheoli'r gost."**

**"Fel pensiynwr sy'n byw ar fy mhen fy hun, roedd fy miliau ynni wedi codi gymaint fel nad oeddwn yn gallu fforddio eu talu mwyach. Roedd yn rhaid i mi ddiffodd y boeler i leihau'r costau, ac rwy'n berwi'r tegell unwaith y diwrnod yn unig i gael ychydig o ddŵr cynnes i ymolchi. Rwyf wedi cael rhywfaint o gymorth gyda thalebau tanwydd ac mae hyn wedi helpu, ond rwy'n teimlo'n unig iawn ar fy mhen fy hun yn yr oerfel. Rwy'n mynd i'r banc bwyd lleol i gael cymorth ac mae hyn hefyd yn helpu fy iechyd meddwl gan fy mod yn mynd allan ac yn sgwrsio gyda phobl."**






**30%**

- **Roedd biliau gwresogi arferol 30% yn uwch ym mis Rhagfyr 2024 nag yn y gaeaf 2021/22; ac roedd y cap ar brisiau ar fin cynyddu ym mis Ionawr 2025 (adroddiad hydref 2024 CCC).**

**33%**

- **Yn ogystal, mae 33% o'n staff yn cael trafferth cadw eu cartrefi yn gynnes.**

**375,000**

- **Yng Nghymru, mae 375,000 o aelwydydd â phensiynwyr wedi colli eu taliad tanwydd gaeaf yn 2025.**
- **Mae aelwydydd hŷn yn tueddu i fyw yn y cartrefi lleiaf effeithlon o ran ynni. Mae prisiau trydan yng Nghymru ymhlith yr uchaf yn y Deyrnas Unedig.**

# Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod **bwyd da a fforddiadwy** ar gael ym mhob un o'n cymunedau

Yn ein byd yn y dyfodol, byddai pob un o breswylwyr ClwydAlyn yn gallu cael gafael ar fwyd da. Mae hyn yn golygu na fyddai neb yn llwglyd nac yn mynd heb brydau. Bydd pawb yn gallu cael gafael ar fwyd iach, maethlon i fodloni eu hanghenion deietegol a diwylliannol personol. Bydd ganddynt y wybodaeth, sgiliau a'r adnoddau i baratoi prydau. Yn y cymunedau bydd sawl ffordd o gael gafael ar fwyd, o dyfu eich bwyd eich hun, defnyddio marchnadoedd cymunedol neu siopau lleol a dewisiadau adwerthu fforddiadwy eraill. Yn y dyfodol hwn, ni fydd unrhyw alw am gronfeydd caledi na banciau bwyd. Mae cymunedau yn dod at ei gilydd i ddysgu, gan annog dysgu sy'n amlddiwylliannol ac yn pontio'r cenedlaethau. Mae gan ein preswylwyr ddewisiadau bwyd, ac maent yn dewis ffordd o fyw sy'n dda ac yn faethlon.




**"Rwyf wedi mynd am ddyddiau heb fwyta oherwydd fy sefyllfa ariannol. Rwy'n cerdded tipyn ac yn chwarae pêl-droed felly mae angen deiet iach arnaf, ond dydy hyn ddim yn bosibl ar yr arian rwy'n ei dderbyn. Mae'n debyg fy mod i'n bwyta tua 500-1,000 o galorïau y diwrnod yn unig."**

**"Mae pawb yn fy llety dros dro yn cael trafferthion gyda bwyd, mae'n debyg mai dyna un o'r pethau mwyaf cyffredin sy'n gysylltiedig â bod yn ddigartref"**

**21.8%**

- **Mae cyfran yr oedolion yng Ngogledd Cymru (21.8%) sy'n dweud eu bod yn bwyta'r cyfrannau o ffrwythau a llysiau a argymhellir yn llawer is yn ystadegol na chyfartaledd Cymru (28.5%). Yn Ynys Môn mae'r cyfran isaf o oedolion sy'n dweud eu bod yn bwyta pum cyfran o ffrwythau a llysiau (9.2%) (BIPBC).**

**60%**

- **Mae Gogledd Cymru yn cymharu'n llai ffafriol na Chymru gyfan o ran bwyta'n iach. Mae ffigyrau'r DU eisoes yn dangos bod tua 60% o galorïau yn dod o fwyd sydd wedi'i brosesu (UPF), a all gynyddu'r risgiau o glefydau fel canser o 10%, dementia o 26% a'r risg o drawiad ar y galon, strôc, diabetes, iselder a syndrom coluddyn llidus (IBS) a marwolaeth gynamserol o 26%.**

**30.6%**

- **Mae cost cynyddol bwyd hefyd yn arwain at gynnydd sylweddol mewn tlodi bwyd ac anghydraddolebau iechyd. Rhwng mis Mai 2021 a mis Mai 2024 fe wnaeth prisiau bwyd gynyddu 30.6% (adroddiad costau byw hydref 2024 CCC).**

**36%**

- **Mae 36% o staff ClwydAlyn wedi dweud wrthym eu bod yn cael trafferth fforddio bwyd, ac mae 2% yn mynd heb fwyd weithiau ac yn defnyddio banciau bwyd.**

**75%**

- **Mae 75% o'r bwyd mewn ysgolion wedi'i brosesu, ac mae UPF 50% yn fwy niweidiol i'r amgylchedd.**




# Blaenoriaethau **galluogi**


Er mwyn canolbwyntio ar ein blaenoriaethau, mae angen i ni sicrhau bod ein cydweithwyr yn cael pob cymorth a bod gennym y gwasanaethau cymorth cywir yn eu lle er mwyn llwyddo. Felly rydym wedi datblygu dwy flaenoriaeth alluogi ychwanegol i'n helpu i gyflawni ein cenhadaeth:

Staff **teyrngar** sy'n credu yn ein gwaith ac sy'n teimlo bod ClwydAlyn yn eu gwerthfawrogi ac yn eu cefnogi

Gwasanaethau **cymorth** corfforaethol sy'n golygu bod modd cyflawni'r amcanion corfforaethol

# Y darlun **rhanbarthol**

Wrth benderfynu ar ein blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf, roedd yn bwysig deall y cyd-destun allanol o ran sut fath o boblogaeth fydd gennym yn y dyfodol, a'r rhagolygon ar gyfer tlodi ac anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol yn y Deyrnas Unedig a Chymru, er mwyn i ni wybod ble dylem ganolbwyntio ein gwaith a'n hadnoddau.



## Sut fath o boblogaeth fydd gennym?

- Yng nghanol 2021, roedd pobl dros 65 oed yn cyfrif am 20% o'r boblogaeth. Erbyn 2038, bydd 20% dros 70 oed.
- Yng Ngogledd Cymru, mae disgwyl i'r boblogaeth gynyddu 1.5% erbyn 2040 – cynnydd llai na Chymru gyfan. Rhagwelir y bydd nifer y plant a phobl ifanc yn lleihau ym mhob sir yng Ngogledd Cymru, ac y bydd y lleihad mwyaf yn Wrecsam.
- Disgwylir y bydd nifer y bobl hŷn dros 65 oed yn codi ar draws y rhanbarth, gyda'r newid canrannol mwyaf yng Nghonwy a Sir Ddinbych (BIPBC).
- Ethnigrwydd – Mae canran y preswylwyr nad ydynt yn wyn eu croen yn is yng Ngogledd Cymru na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Yn Wrecsam mae'r cyfran mwyaf o bobl sy'n Ddu, Asiaidd ac o gefndir Ethnig Lleiafrifol (4.5%) ac mae'r duedd gyffredinol yn dangos cynnydd graddol mewn amrywiaeth ethnig ledled y rhanbarth.
- Canran y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn y rhanbarth yw 29.1%, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (17.8%).
- Mae'r gyfradd genedigaethau yn dal i ostwng – cyfradd ffrwythlondeb menywod yng Nghymru a Lloegr yn 2022 oedd 1.49 o blant o'i gymharu ag 1.91 yn 2010.






# Tlodi

**Ni ddylid byth â thanystyried y cywilydd sy'n gysylltiedig â byw mewn tlodi. Mae lefelau tlodi yn cynyddu ar draws pob demograffeg yn y DU a Chymru, ac mae canran y bobl sy'n wynebu tlodi mewn gwaith yn cynyddu hefyd:**

- Mae 20% o boblogaeth Cymru yn byw mewn tlodi, a 30% o blant.
- Mae ffigyrau Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn dangos bod canran y plant sy'n byw mewn tlodi yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu rhwng 2015 a 2021; roedd y cynnydd uchaf yng Nghonwy (6.2%) a Sir Ddinbych (6.1%).
- Yn ôl Sefydliad Joseph Rowntree mae 90% o bobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn mynd heb un peth sylfaenol, fel bwyd, cartref cynnes, dillad digonol, a nwyddau ymolchi.
- Mae tlodi mewn gwaith yn broblem sydd wedi gwaethygu dros yr 20 mlynedd diwethaf. Amcangyfrifir bod 14% o weithwyr yn byw mewn tlodi yng Nghymru – y gyfradd uchaf yn y DU (ac eithrio Llundain) (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a).
- Dangosodd ymchwil Sefydliad Joseph Rowntree fod pedair o bob deg aelwyd sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru ar hyn o bryd yn cynnwys o leiaf un gweithiwr llawn amser. Mae hyn yn awgrymu nad yw cael swydd bob amser yn ddigon i atal tlodi (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a).
- Aelwydydd sy'n byw mewn llety rhent cymdeithasol sydd â'r gyfradd dlodi uchaf o blith y gwahanol fathau o ddeiliadaeth ac maent yn cyfrif am y cyfran mwyaf o bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru – 48.8% yn 2018/19. Mae 34.6% o'r bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn byw ar aelwydydd rhent cymdeithasol (Sefydliad Joseph Rowntree, 2020a).

# Tai ac anghydraddoldebau




- **Mae adroddiad The Fabian Society (Simon Graham, 2024),** *Brick by Brick*, yn rhoi sylw i'r effaith fawr mae ansawdd a chost tai yn ei chael ar iechyd, sefyllfa ariannol, rhagolygon swyddi, cyrhaeddiad addysgol, symudedd, trefn deuluol a dyheadau pobl.

- Mae arbenigwyr yn rhybuddio na fydd y sefyllfa'n gwella i aelwydydd dros y pum mlynedd nesaf (cyfnod y cynllun hwn). Mae'r Resolution Foundation yn awgrymu y bydd enillion wythnosol cyfartalog yn codi £13 mewn termau real yn ystod y ddau ddegawd rhwng 2008 a 2028 (nid yw'n syndod felly bod pobl yn teimlo'n anhapus a ddim yn ymddiried mewn llywodraethau).

# Iechyd a llesiant

- Gall dynion sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Gogledd Cymru ddisgwyl byw am saith mlynedd yn llai na dynion sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig a byw mewn iechyd da am llai na 12 mlynedd na dynion yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Y bwlch o ran disgwyliad oes benywod yw bron i chwe blynedd a gallant ddisgwyl byw mewn iechyd da am bron i 11 mlynedd yn llai na benywod yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

- Yn 2020-21 dywedodd ychydig dros 12% o bobl (16 oed a throsodd) yng Ngogledd Cymru eu bod yn teimlo'n unig, ac roedd hyn yn debyg i gyfartaledd Cymru.

- Yn 2020 amcangyfrifwyd y byddai gan tua 93,800 o bobl yng Ngogledd Cymru anhwylder meddyliol cyffredin fel gorbryder ac iselder.





- Mae BIPBC yn dweud bod tua 12% o bobl (16 oed a throsodd) yn teimlo'n unig, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru. Yn rhanbarth Gogledd Cymru, mae'r ganran yn amrywio o 9% yn Ynys Môn i 13.2% yn Wrecsam.

- Mae alcohol yn ffactor risg sylweddol yn y prif achosion o farwolaethau cynamserol ac yn achos uniongyrchol 5% o'r holl farwolaethau yng Nghymru (BIPBC, 2015). Yng Ngogledd Cymru, mae 16% o oedolion yn dweud eu bod yn yfed mwy o alcohol na'r cyfanswm wythnosol a argymhellir.

- Mathau o ganser yw prif achos marwolaethau yng Ngogledd Cymru, gan gyfrif am bron i 23% o farwolaethau, a'r ail brif achos yw clefydau'r system cylchrediad (21%).



# Sut byddwn yn cyflawni ein blaenoriaethau

## Byw ac arwain yn ôl ein gwerthoedd

Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi byw ac arwain yn ôl ein gwerthoedd sef, ymddiriedaeth, gobaith a charedigrwydd, a byddwn yn parhau i roi'r gwerthoedd hyn wrth galon popeth rydym yn ei wneud yn y dyfodol:

### Ymddiriedaeth

Ymddiriedaeth yw sylfaen perthnasoedd cadarn, pwrpas a rennir, cydweithio a llwyddiant. Rydym yn ymddiried yn ein pobl i wneud penderfyniadau da ac yn rhoi rhyddid iddynt wneud yr hyn sy'n iawn yn eu barn nhw. Trwy sicrhau bod ymddiriedaeth yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud, rydym yn galluogi cydweithwyr i wneud eu gwaith hyd eithaf eu gallu, gyda thegwch ac uniondeb.

### Caredigrwydd

Mae caredigrwydd wrth galon ein diwylliant. Rydym yn meithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd cefnogol ac yn creu amgylchedd gonest lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn cael eu gwerthfawrogi a'u hysbrydoli. Rydym eisiau i garedigrwydd a pharch fod yn amlwg ar draws pob un o'n meysydd busnes, o'r ffordd rydym yn gweithio gyda'n gilydd, i'r ffordd mae preswylwyr yn teimlo eu bod yn cael eu trin pan fyddwn yn darparu ein gwasanaethau.

### Gobaith

Mae gobaith yn ysbrydoli optimistiaeth, gwydnwch a gweledigaeth ar y cyd o ran yr hyn sy'n bosibl pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd. Mae'n gwneud i ni gredu y gall ein hymdrechion a'n gwasanaethau greu newid ystyrlon, parhaus i'n preswylwyr, cymunedau a chydweithwyr. Mae gobaith hefyd yn ein hatgoffa y gall gweithredoedd bach ar y cyd arwain at newidiadau mawr. Dros y pum mlynedd nesaf byddwn yn dal i hyrwyddo ein cenhadaeth a'n blaenoriaethau, gan ddefnyddio gobaith i ysgogi newid cadarnhaol.











# Ein taith ddiwylliannol

**Rydym wedi ymroi i fod yn sefydliad dysgu er mwyn ysgogi ac annog arweinyddiaeth ar bob lefel.** Er mwyn ein helpu i wneud hyn, rydym wedi datblygu Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth bwrpasol i gefnogi carfanau o gydweithwyr ar eu taith arweinyddiaeth, yn ogystal â chyflwyno hyfforddiant gwybodus am drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (TrACE) fel rhan o'n hymrwymiad i ddod yn sefydliad TrACE.

Dros y pum mlynedd nesaf byddwn yn parhau i weithio â chydweithwyr ar draws y busnes i greu teimlad o berthyn a sicrwydd drwy weithredu yn unol â 'Ffordd ClwydAlyn', gan ddiffinio sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd a darparu gwasanaethau gwych i'n gilydd, ein preswylwyr a'n partneriaid.

## Bod yn landlord da yn gyntaf oll

Mae ClwydAlyn yn falch o fod yn landlord da sy'n rhoi preswylwyr wrth galon popeth rydym yn ei wneud. Mae sicrhau bod preswylwyr yn fodlon â'n gwasanaethau yn hynod o bwysig i ni ac rydym yn casglu adborth annibynnol ar ein perfformiad ddwywaith y flwyddyn. Dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi cael ein sgorio yn y chwartel uchaf neu ganol o ran ein perfformiad.

Mae ein hymrwymiad i fod yn landlord da yn hollbwysig, nid yn unig oherwydd mai dyna ddylai ein preswylwyr ei ddisgwyl gennym, ond oherwydd mai'r unig ffordd y gallwn gael dylanwad cryf wrth ymgyrchu i roi diwedd ar dlodi yng Ngogledd Cymru yw drwy gadw ein hygrededd a'n henw da am fod yn dda am wneud ein gwaith.




## Ymgysylltu â phreswylwyr a phartneriaid

**Dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi newid y ffordd rydym yn gweithio gyda'n preswylwyr.**

Ar ddechrau'r Cynllun Corfforaethol blaenorol roedd ein Swyddogion Tai yn gyfrifol am tua 600 eiddo yr un. Roeddem yn gwybod os oeddem am wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n preswylwyr fod angen i ni ganolbwyntio ar feithrin perthynas gyda nhw a deall y pethau oedd yn bwysig iddynt, y problemau roeddent yn eu hwynebu a hefyd y cymorth roedd ei angen arnynt.

I wneud hyn, aethom ati i ailstrwythuro ein timau tai i greu gwasanaeth sy'n canolbwyntio llawer mwy ar breswylwyr.

Trwy wneud pethau'n wahanol, rydym wedi llwyddo i leihau nifer yr eiddo mae pob swyddog yn gyfrifol amdano i tua 250. Mae hyn yn golygu y gallwn yn awr feithrin perthynas gyda'n preswylwyr o ddiwrnod cyntaf eu tenantiaeth.

Dylanwada arnom Ni
ClwydAlyn




Rydym hefyd wedi newid y ffordd rydym yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gan ddatblygu proses newydd sy'n canolbwyntio ar bryderon pob preswyliwr ac sy'n rhoi cymorth i bawb y mae'r materion hyn yn effeithio arnynt yn eu cartrefi neu gymunedau. Gan weithredu mewn ffordd sy'n wybodus o ran trawma, gallwn roi sylw i broblemau preswylwyr drwy gynnal sgyrsiau sy'n ein helpu i ddeall sut gallwn helpu'r bobl sy'n byw yn ein cartrefi.

Rydym wedi datblygu rhaglen newydd i ymgysylltu â phreswylwyr o'r enw 'Dylanwada arnom Ni' sy'n rhoi'r preswylwyr wrth galon popeth rydym yn ei wneud. Bydd ein Pwyllgor Preswylwyr yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn y cynllun hwn.

## Buddsoddi mewn tai newydd **ffforddiadwy**

**Mae tai newydd yn hanfodol er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau i roi diwedd ar dlodi a darparu cartrefi diogel, cynnes a fforddiadwy i bawb.** Mae ein cartrefi yn fwy na brics a mortar, maent yn rhan hanfodol o'n gwaith i wella bywydau pobl a'u cyfleoedd mewn bywyd. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae ein pwyslais ar fforddiadwyedd, cynhesrwydd a diogelwch wedi'u gwreiddio yn ein Rhaglen Ddatblygu.

Mae darparu rhagor o gartrefi fforddiadwy a chynnig amrywiaeth o ddeiliadaethau, a hynny ar fyrder, yn dal i fod yn flaenoriaeth i ClwydAlyn. Yn ystod oes y Cynllun Corfforaethol hwn a'r Cynllun Busnes, amcangyfrifir y bydd 1,169 o gartrefi newydd ychwanegol yn cael eu hadeiladu yn ardaloedd saith Cyngor gan olygu y bydd cyfanswm ein cartrefi bron yn 8,000.

Mae'r rhan fwyaf o gartrefi newydd yn cyrraedd safon EPCa (y dull presennol o sgorio perfformiad cartref), fodd bynnag, adeiladwyd dros 450 o gartrefi newydd 'carbon isel' sy'n rhagori ar y rheoliadau adeiladu presennol.

Mae'r Rhaglen Ddatblygu hefyd yn darparu cartrefi ar gyfer pob math o anghenion gwahanol; mae'r cartrefi yn cael eu hadeiladu i'r safonau dylunio uchaf gan fodloni dyheadau Llywodraeth Cymru, ac mae'n bosibl eu haddasu wrth i amgylchiadau pobl newid.





## Llywodraethu a sefyllfa ariannol **gadarn**

**Mae ClwydAlyn yn cynnwys pedwar endid cyfreithiol; ClwydAlyn, Cymdeithas Dai gyda nodau elusennol, cwmni masnachol Tai Elwy sy'n darparu gweithgareddau nad ydynt yn elusennol (nad yw'n weithredol ar hyn o bryd); corff datblygu o'r enw Tir Tai Limited, a changen ariannu o'r enw PenArian Housing Finance Limited (nid yw'r ddau olaf yn ymwneud â chwsmeriaid).**



Mae ClwydAlyn yn gwmni sy'n gadarn yn ariannol ac sy'n dal i dyfu. Ni yw'r unig gymdeithas dai yng Nghymru sydd â sgôr credyd a bond corfforaethol a gyhoeddwyd yn gyhoeddus. Mae rheolaeth ariannol dda yn sail i'n holl waith.

Fel landlord cymdeithasol cofrestredig a darparwr gofal cymdeithasol, mae cynnal safonau rheoleiddio uchaf The Housing Regulator ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn dal i fod yn flaenoriaeth bwysig i ni, a byddwn bob amser yn rhoi blaenoriaeth i weithredu ar unrhyw feysydd y nodwyd bod angen eu gwella. Ar hyn o bryd, mae gan ClwydAlyn sgôr rheoleiddio Gwyrdd ar gyfer Llywodraethu a Hyfywedd.

Yn ogystal â hyn, mae ein sgôr credyd 'A Sefydlog' gan Standard & Poor's ac A3 gan Moody's wedi aros yr un fath.

## Dylanwad ac eiriolaeth

**Rydym yn sylweddoli na allwn roi diwedd ar dlodi ar ein pen ein hunain, ac rydym yn deall pa mor bwysig yw gweithio fel system gyfan drwy feithrin a chynnal perthynas gadarnhaol gyda phartneriaid allweddol yn yr ardaloedd lle'r rydym yn gweithio, yn ogystal ag yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, er mwyn i ni barhau i ddylanwadu a hybu cydweithio i gyflawni ein pwrpas.**

Rydym yn asesu ein perthynas gyda phob math o randdeiliaid, gan ystyried sut mae ein gwaith cynllunio a'n blaenoriaethau yn cyd-fynd â rhai partneriaid eraill, a sut gallwn weithio gyda'n gilydd er mwyn helpu i gyflawni nodau cyffredin.





## Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella amrywiaeth

**Trwy fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chroesawu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant rydym wedi ymrwymo i greu amgylchedd lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, eu bod yn gallu cyfrannu eu profiadau a'u safbwyntiau, a lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn.**

Rydym yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd (Lefel 2), ac rydym yn gweithio i sicrhau bod gennym broses resymol a chadarn yn ei lle i ddarparu addasiadau ar gyfer pob gweithiwr y mae arno angen mesurau neu gymorth ychwanegol ar gyfer ei swydd.

Law yn llaw â'n Fforwm Staff, Rhwydwaith Cynhwysiant, Hafan Pawb (grŵp cymheiriaid niwroamrywiol) a'n rhaglen fentora 'o chwith', rydym yn creu mannau diogel lle gellir cynnal sgwrs agored a bod yn gynhwysol wrth wneud penderfyniadau. Rydym hefyd yn sicrhau bod gennym y wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth berthnasol fel Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru a Safonau'r Gymraeg ac yn cymryd camau gweithredu yn ôl yr angen.



## Iechyd a Llesiant

**Gwnaethom ymrwymo i gefnogi iechyd meddwl ein cydweithwyr sawl blwyddyn yn ôl bellach.**

Mae ein tîm llesiant mewnol wedi helpu cannoedd gydweithwyr ac rydym yn dal i ymroi i ddarparu cymorth llesiant. Maent yn canolbwyntio ar y cyd â chydweithwyr ar draws y busnes i wella'r cymorth llesiant sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd i'n preswylwyr a'n cymunedau.

Rydym yn parhau ar ein taith i ddod yn sefydliad sy'n wybodus o ran Trawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (TrACE) ac i ddeall effaith trawma dirprwyol ar gydweithwyr sy'n darparu ein gwasanaethau.

Mae perthyn, gwydnwch a diogelwch seicolegol ein cydweithwyr yn faes allweddol rydym yn canolbwyntio arno, a bydd hyn yn ei dro yn gwella'r gwasanaethau y byddwn yn parhau i'w darparu i'n preswylwyr, cymunedau a phartneriaid allanol. Byddwn yn dal i ystyried dewisiadau gweithio mwy hyblyg i hwyluso cydbwysedd rhwng bywyd, gwaith a llesiant ein cydweithwyr. Bydd hyn, ochr yn ochr â'n hymrwymiad i adolygu pecyn buddion ein gweithwyr i sicrhau bod modd ei deilwra, a'i fod yn gystadleuol, yn gynhwysol ac yn helpu ein pobl ar bob cam yn eu bywyd, yn cefnogi ein nod o fod yn gyflogwr o ddewis.

## Cyflogadwyedd

**Rydym wedi cynorthwyo ein preswylwyr am sawl blwyddyn i ddod o hyd i swyddi gwerth chweil drwy gydweithio â phartneriaid a'n contractwyr i ddod o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli, profiad gwaith a gwaith cyflogedig.** Byddwn yn parhau i wneud hyn gan geisio cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael.

Mae gwerth cymdeithasol ein gwaith, a'r effaith rydym yn ei chael ar fywydau pobl, yn ffactor allweddol wrth hyrwyddo ein nodau cyflogadwyedd. Byddwn yn datblygu ffyrdd newydd o olrhain a chofnodi'r effaith mae ein gwaith yn ei chael ac yn darparu gwell ystadegau am ein llwyddiant.





## Gweithio gyda'n gilydd

Os hoffech wybod rhagor am ein gwaith i roi diwedd ar dlodi yng Ngogledd Cymru, neu os ydych yn rhannu ein nodau ac hoffech wybod sut gallwn weithio gyda'n gilydd, cysylltwch â ni.

Gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i greu newid gwirioneddol ar gyfer cymunedau Gogledd Cymru.

ClwydAlyn

@ClwydAlyn

**www.clwydalyn.co.uk · 0800 183 5757**
**e-bost: help@clwydalyn.co.uk**

Mae ClwydAlyn yn Gymdeithas Elusennol Gofrestredig

*Gyda'n gilydd,* byddwn yn **rhoi diwedd** ar dlodi